Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

National Assembly for Wales
Public Accounts Committee

23 Hydref 2018

Annwyl Gyfaill,

CAFFAEL CYHOEDDUS

Fel y gwyddoch, cyhoeddodd Archwilydd Cyffredinol Cymru adroddiadau am gaffael cyhoeddus yng Nghymru ym mis Hydref 2017 a'r Gwasanaeth Caffael Cyhoeddus ym mis Tachwedd 2017. Cychwynnodd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ymchwiliad yn edrych ar y materion hyn yng ngwanwyn 2018, ac fe gyflwynoch chi dystiolaeth iddo.

Yn ystod y sesiwn dystiolaeth gyda Llywodraeth Cymru ar 5 Mawrth, daeth i'r amlwg y byddai adolygiad yr oedd Llywodraeth Cymru yn ei gynnal yn ateb nifer o bryderon y Pwyllgor. Wedi hynny, ysgrifennais at Lywodraeth Cymru ym mis Mawrth, gan ddweud y byddai'n gynamserol i'r Pwyllgor ddod i gasgliadau nes i'r adolygiad gael ei gwblhau ac y byddai'r Pwyllgor yn myfyrio ar ganlyniadau'r adolygiad hwnnw maes o law. Gan fod yr adolygiad bellach wedi'i gwblhau, bydd y Pwyllgor yn dychwelyd at yr ymchwiliad hwn ym mis Tachwedd.

I gynorthwyo'r Pwyllgor gyda'r ymchwiliad hwn, byddwn yn ddiolchgar pe gallech roi eich barn i mi am ganfyddiadau adolygiad Llywodraeth Cymru, y cyhoeddodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid mewn datganiad ar 5 Medi. Bydd y Pwyllgor yn cymryd tystiolaeth bellach gan Lywodraeth Cymru i ymchwilio i ganfyddiadau'r adolygiad a'r camau nesaf a fwriedir yn fwy manwl ym mis Tachwedd. Yn ogystal, mae'r Pwyllgor wedi dweud wrth Lywodraeth Cymru y byddai hefyd yn gwerthfawrogi'r wybodaeth ddiweddaraf am gamau perthnasol mewn ymateb i'r argymhellion a wneir gan yr Archwilydd Cyffredinol yn ei ddau adroddiad. Yn ystod y sesiwn dystiolaeth, bydd y Pwyllgor yn gofyn am eglurhad ynghylch sut y

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddArchwilio@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddArchwilio
0300 200 6565

National Assembly for Wales
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddPAC@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddPAC
0300 200 6565

mae'r argymhellion hynny wedi cael eu datblygu, neu sut y byddant yn cael eu datblygu yng nghyd-destun y camau sy'n deillio o'r adolygiad.

Edrychaf ymlaen at glywed gennych erbyn 9 Tachwedd.

Yn gywir,

Nick Ramsay AC
Cadeirydd